Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol MyDentist, Llanbedr Pont Steffan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 19 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83577-264-5

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8
   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

Y camau nesaf ........ 18

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 19

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 20

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol MyDentist, Llanbedr Pont Steffan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 19 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 32 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Practis Deintyddol MyDentist, Llanbedr Pont Steffan yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, roedd y sylwadau ar y cyfan yn gadarnhaol a dywedodd pob un ond un claf a nododd eu barn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Roedd darpariaeth dda i ddiwallu anghenion y cleifion, o ran eu dewis iaith a mynediad i ddefnyddwyr anabl.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Tywyllu'r gwydr ffenestr ym Meddygfa 4 er mwyn gwella preifatrwydd y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân, dymunol, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Darpariaeth dda o wybodaeth i gleifion, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Addasiadau wedi cael eu gwneud i helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn lân ar y cyfan, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Gwelsom fod y staff yn dilyn gweithdrefnau clir er mwyn sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi, a bod cyfarpar meddygol yn cael ei wirio a'i brofi'n rheolaidd.

Roedd pob ardal yn ymddangos mewn cyflwr da, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Newid dyfais llaw golau caledu ym Meddygfa 3

- Adolygu'r trefniadau glanhau ar gyfer yr ardaloedd clinigol
- Cynnal archwiliadau yn benodol ar roi'r gorau i smygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn drefnus iawn ac wedi'u storio'n ddiogel
- Roedd y cyfarpar clinigol mewn cyflwr da, a chofnodion da wedi cael eu cadw
- Roedd y safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gyda rhagofalon diogelwch tân priodol
- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod gan MyDentist, Llanbedr Pont Steffan arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd rheolwr practis, a'r unigolyn hwn hefyd oedd rheolwr cofrestredig y practis. Gwelsom fod tîm corfforaethol ehangach MyDentist yn rhoi cymorth effeithiol.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, i'r cleifion a'r staff. Roedd tîm sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal i rannu gwybodaeth, a bod trefniadau rheolaidd ar waith i reoli perfformiad y staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael i bob aelod o'r staff
- Roedd cofnodion y staff a chofnodion cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn gyflawn ac yn cael eu rheoli'n dda
- Roedd y gwasanaeth yn gwneud defnydd effeithiol o grŵp corfforaethol y practis.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *" Mae [y Deintydd] a'i dîm cyfan yn arbennig! Mae'r holl staff yn wych, diolch i chi am bopeth rydych yn ei wneud."*
>
> *" Arbennig, cyfeillgar."*
>
> *"Hollol anhygoel â phlant."*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael i gleifion yn yr ardal aros ac yn y meddygfeydd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am iechyd y geg, ac roedd darpariaeth dda o ddeunyddiau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau yn cael ei harddangos yn glir yn y dderbynfa ac yn y meddygfeydd.

Roedd oriau agor y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa ac ar y drws ffrynt, yn ogystal â chyfarwyddiadau i gysylltu â GIG 111 mewn argyfwng neu tu allan i oriau agor.

Roedd poster yn ardal aros y cleifion yn nodi enwau a rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, cwrtais a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Oherwydd prinder lle, roedd desg y dderbynfa yn agos iawn at ardal aros y cleifion, gan ei gwneud yn anoddach sicrhau preifatrwydd y cleifion. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod wedi mynd i ymdrech i sicrhau bod preifatrwydd y

cleifion yn cael ei gynnal a gallai cleifion a oedd am gael trafodaeth gyfrinachol fynd i swyddfa Rheolwr y Practis neu feddygfa wag.

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau er mwy cynnal preifatrwydd y cleifion. Roedd gan y deintyddfeydd â ffenestri allanol wydr neu fleindiau cudd y gellid eu cau, oni bai am un ffenestr ym Meddygfa 4.

**Rydym yn argymell y dylid cymryd camau i dywyllu'r ffenestr ym Meddygfa 4.**

Roedd fersiwn MyDentist o god ymarfer moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei harddangos yn ardal aros y cleifion. Roedd Tystysgrifau Cofrestru AGIC hefyd yn cael eu harddangos, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwelsom arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC yn dweud bod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**
Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf, a gwelsom fod y rhain yn cynnwys dynodyddion cleifion perthnasol, hanes meddygol a thystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau.

Dywedodd pob un a gwblhaodd yr holiadur a oedd yn teimlo bod hyn yn gymwys bod digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r buddiannau a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

## Amserol

**Gofal Amserol**
Dywedodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi, ac y byddai'r cleifion yn cael eu hysbysu ar lafar.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys ar gael bob dydd a gellid cynnig opsiwn 'eistedd ac aros' i gleifion sydd angen triniaeth frys.

Dywedodd y rhan fwyaf un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn ‘hawdd iawn’ neu'n ‘eithaf hawdd’ (12/43) cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**
Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt, pan fo'u hangen i ymateb i gleifion nad ydynt yn siarad Cymraeg/Saesneg.

Roedd poster yn ardal aros y cleifion yn gofyn i'r cleifion roi gwybod i'r practis am eu dewis iaith.

Gwelsom dystiolaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn 'iaith gwaith' ac yn siarad Cymraeg â chlaf, a phosteri yn cynnig ac yn hyrwyddo'r Gymraeg.

Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad, a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn Gymraeg.

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Roedd Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith gan y practis, a oedd wedi cael ei lofnodi gan bob aelod o'r staff i dystio eu bod wedi ei ddarllen a'i bod yn ei ddeall.

Gwelsom fod addasiadau wedi'u gwneud i alluogi defnyddwyr anabl i gael mynediad i'r practis ac i ddefnyddio'r gwasanaethau. Roedd dolen sain wedi'i dangos yn glir yn ardal y dderbynfa. Roedd ramp i'r fynedfa ac adran is ar gyfer desg y fynedfa i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn ac roedd un o'r meddygfeydd ar y llawr gwaelod. Roedd toiled hygyrch ar y llawr gwaelod.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parchu hawliau'r cleifion trawsryweddol ac yn cadw cofnod ar eu system electronig os byddai claf yn rhoi gwybod iddynt am ragenwau a ffefrir ganddynt.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da ar y cyfan, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn hawdd ei gyrraedd, yn lân yr olwg ac yn daclus. Roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo ac uned gwaredu cynnyrch mislifol.

Roedd nifer priodol o gadeiriau yn ardal aros y cleifion, pob un â defnydd y gellid ei sychu'n lân a rhai ohonynt â gorffwys braich er mwyn helpu'r rhai ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod arwydd yn ardal y dderbynfa yn dangos bocs cymorth cyntaf, ond dywedodd y staff wrthym fod y bocs wedi cael ei symud i fyny'r grisiau ers hynny. Codwyd hyn yn ystod yr arolygiad ac ychwanegwyd adran i'r arwydd yn egluro lleoliad y bocs cymorth cyntaf.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau a oedd yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod gan y practis asesiad risg cyfredol, rhestr o gyfarpar diffodd tân a chofnodion o wiriadau a chynnal a chadw. Gwelsom arwyddion clir o allanfeydd tân a chofnodion o ymarferion tân a oedd yn cynnwys pwy oedd wedi cymryd rhan ynddynt.

Roedd amrywiaeth o ddiffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau allweddol ac roedd tystiolaeth eu bod yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad nodwyd gennym nad oedd dau ddiffoddwr tân wrth yr allanfa dân gefn wedi'u hongian ar eu bracedi. Datryswyd hyn yn ystod yr arolygiad ac eglurodd rheolwr y practis eu bod wedi cael eu symud dros dro oherwydd y gwaith paentio.

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau bod yr ardal yn addas at y diben, a bod risgiau'n cael eu hystyried a'u lleihau. Roedd Cynllun Parhad Busnes ar waith, pe bai argyfwng.

Gwelsom fod Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr a phoster Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn cael ei harddangos.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Roedd trefniadau priodol i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig.

Nodwyd gennym y byddai rhai ardaloedd mewn meddygfeydd yn elwa o gael mwy o sylw wrth lanhau, megis tynnu llwch o lefelau uchel a glanhau'r tu mewn i gypyrddau. Fodd bynnag, roedd safon y glendid yn dda ar y cyfan.

**Rydym yn argymell y dylai'r trefniadau glanhau gael eu hadolygu er mwyn nodi sut y gellir eu gwella.**

Gwelwyd fod dyfais llaw golau caledu ym Meddygfa 3 mewn cyflwr gwael, a allai wneud glanhau a rheoli heintiau yn anoddach.

**Rydym yn argymell y dylai'r ddyfais llaw golau caledu ym Meddygfa 3 gael ei newid.**

Roedd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn bod y lleoliad naill ai'n ‘lân iawn’ neu'n ‘eithaf glân, ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac ar gyfer trin a chael gwared ar wastraff.

**Rheoli Meddyginiaethau**
Nodwyd gennym fod gan y practis drefniadau priodol a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

Roedd trefniadau a chyfarpar priodol ar waith i reoli argyfyngau meddygol, gyda'r holl gyfarpar yn gyfredol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant pum aelod o staff a gwelsom fod pob un ohonynt wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf mewn dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd dau swyddog cymorth cyntaf wedi'u penodi.

**Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith a'u bod ar gael i bob aelod o'r staff, gan gynnwys polisi 'heb eu hebrwng' penodol mewn perthynas â phlant ddim yn mynychu eu hapwyntiadau.

Roedd y polisi a'r gweithdrefnau yn cyfeirio at y Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2019, a dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff yn gallu defnyddio'r wefan a'r ap y gellid ei lawrlwytho. Roedd cymorth ac arweiniad hefyd ar gael gan y grŵp corfforaethol.

Roedd arweinydd diogelu amlwg a thystiolaeth o lefelau da o hyfforddiant gan y staff. Dywedwyd wrthym fod staff hefyd yn defnyddio llinell adrodd fewnol i dynnu sylw at faterion a bod cymorth cwnsela ar gael i'r staff os byddai ei angen arnynt.

Nid oedd copi papur y ffeil ar bolisi diogelu yn cynnwys manylion cyswllt perthnasol. Fodd bynnag, gwelwyd fod y wybodaeth hon ar gael ym mhob meddygfa.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Gwelwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau o archwiliadau pelydr-X yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwnaethom edrych ar gofnodion sampl o bum aelod o staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Gwelsom fod asesiad risg ymbelydredd priodol ar waith.

## Effeithiol

**Gofal Effeithiol**
Nodwyd gennym fod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hamlinellu yn y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion.

Roedd tystiolaeth bod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol yn cael eu dilyn. Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs), er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

**Cofnodion y Cleifion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd pob un o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys hanes meddygol, asesiadau risg, opsiynau triniaeth a chydsyniad.

Nid oedd y cofnodion a gafodd eu hadolygu yn cynnwys dewis iaith y cleifion. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod yr opsiwn hwn wedi cael ei ychwanegu at y system electronig a bod gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys y wybodaeth hon.

## Effeithlon

**Effeithlon**
Roedd y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.

Dywedodd y staff wrthym fod rhestr aros o gleifion yn cael ei chadw, wedi'i blaenoriaethu ar sail eu difrifoldeb, er mwyn gallu cynnig apwyntiadau sydd wedi'u canslo iddynt.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Gwelsom fod rhiant grŵp y practis hefyd yn rhoi cymorth da.

Roedd systemau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol, a bod y staff yn cyflawni hyfforddiant priodol.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff, ag agendâu wedi'u strwythuro a chofnodion a rannwyd yn electronig â'r holl staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd ei fod wedi gweithio gyda rheolwyr cyfatebol yn y grŵp corfforaethol i rannu cymorth a gwybodaeth.

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn gweithio gyda'r tîm adnoddau dynol corfforaethol er mwyn sicrhau bod ganddynt gymhareb staffio briodol yn y practis.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogi a rhestr wirio ar gyfer sefydlu. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod cofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i wirio a'i gynnal, a bod gwiriadau'n cael eu cynnal drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid oedd gan rai o'r staff eirdaon gan gyflogwyr blaenorol fel rhan o'u cofnod. Dywedwyd wrthym er y gofynnir am eirdaon, nid oedd y rhain yn cael eu darparu bob amser ac yn yr achos hwn byddai asesiadau'n cael eu defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod perfformiad y staff yn cael ei reoli drwy gyfarfodydd un i un, adolygiadau perfformiad ac arfarniadau.

Gwnaethom adolygu sampl o bum cofnod staff a gwelsom gydymffurfiaeth 100% â gofynion hyfforddiant gorfodol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Gwelsom flwch awgrymiadau, gyda deunyddiau ysgrifennu wedi'u darparu, yn ardal y dderbynfa i gleifion adael adborth. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r cleifion yn cael neges destun SMS ar ôl apwyntiad, gyda dolen yn eu gwahodd i roi adborth yn electronig.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod unrhyw adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm.

Gwelsom fod gan y practis boster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn ardal y dderbynfa, i ddangos lle roedd adborth wedi cael ei roi ar waith.

Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion, a oedd yn cynnwys amserlenni, ffynonellau cymorth i gleifion a sut i uwchgyfeirio'r gŵyn i gyrff allanol os na ellid dod i gytundeb. Roedd y weithdrefn gwyno, ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat yn cael ei arddangos yn glir yn ardal aros y cleifion.

Nodwyd gennym fod y fersiwn o weithdrefn gwyno sy'n cael ei arddangos yn cyfeirio at Gynghorau Iechyd Cymuned fel ffynhonnell eirioli. Cafodd y rhain eu disodli fis Ebrill 2023 gan 'Llais'.

**Gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r weithdrefn gwyno i newid cyfeiriadau at Gynghorau Iechyd Cymuned gyda 'Llais'.**

Gwelsom fod gan y practis ganllaw i’r Ddyletswydd Gonestrwydd, wedi'i lofnodi a'i ddarllen gan y staff, a thystiolaeth o hyfforddiant ymarfer efelychu. Er nad oedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd penodol, roedd gofynion y Ddyletswydd yn cael eu cwmpasu gan bolisi rhoi gwybod am ddigwyddiad y practis. Byddai hysbysiadau o ddigwyddiadau diogelwch cleifion fel arfer yn cael eu huwchgyfeirio at y grŵp corfforaethol, a fyddai'n hysbysu cyrff allanol fel sy'n ofynnol.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**
Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion, polisïau a gweithdrefnau a chofnodion y staff. Yn ogystal, roedd y practis yn gallu cael gafael ar adnoddau gwybodaeth drwy ei grŵp corfforaethol.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Gwelsom fod y practis yn cynnal gweithgareddau gwella ansawdd priodol, gan gynnwys yr ymarfer Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch blynyddol. Defnyddiwyd system lywodraethu fewnol i nodi archwiliadau sy'n ofynnol ac i olrhain eu cynnydd. Nodwyd gennym fod rhoi'r gorau i smygu wedi'i gynnwys fel rhan o archwiliad cadw cofnodion.

**Rydym yn argymell y dylid ymgymryd ag archwiliad sy'n sefyll ar ei ben ei hun ar roi'r gorau i smygu fel rhan o'r rhaglen archwilio.**

Ni wnaeth y practis ddefnyddio offer gwella ansawdd a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ond roedd gan y practis afael ar offer cyfatebol a ddarparwyd gan ei grŵp corfforaethol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ceisio barn y staff yn ystod cyfarfodydd tîm ond hefyd drwy arolygon dienw.

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**
Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio dulliau amrywiol i weithio gyda phartneriaid gofal iechyd, galwadau ffôn a system ar-lein ar gyfer atgyfeiriadau.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Roedd arwydd yn ardal y dderbynfa yn dangos bod bocs cymorth cyntaf wedi'i leoli yno, ond dywedodd y staff wrthym fod y bocs wedi cael ei symud i fyny'r grisiau.** | Gallai hyn achosi dryswch pe bai argyfwng meddygol ac oedi wrth roi triniaeth. | Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad. | Cafodd adran ei hychwanegu at yr arwydd i egluro lleoliad y bocs cymorth cyntaf. Cwblhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. |
| **Yn ystod yr arolygiad nodwyd gennym nad oedd dau ddiffoddwr tân wrth yr allanfa dân gefn wedi'u hongian ar eu bracedi.** | Dylid cadw diffoddwyr tân mewn lleoliadau penodol er mwyn sicrhau y gellir cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng. | Trafodwyd hyn â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad. | Rhoddwyd y diffoddwyr tân yn ôl ar eu bracedi yn ystod yr arolygiad. |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** **Practis Deintyddol MyDentist, Llanbedr Pont Steffan**

**Dyddiad yr arolygiad: 19 Medi 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio** | | | | | |
| | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Nid yw'n ofynnol**

**Swydd:** **Nid yw'n ofynnol**

**Dyddiad:** **Nid yw'n ofynnol**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol MyDentist, Llanbedr Pont Steffan**

**Dyddiad yr arolygiad: 19 Medi 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nid oedd ffenestr allanol ym Meddygfa 4 yn darparu digon o breifatrwydd i gleifion.** | Tywyllu'r ffenestr neu osod gorchuddion, er mwyn sicrhau bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 15(1) | Gorchudd barugog wedi'i osod i ffenestri ym meddygfa 4 | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd 15/11/23 |
| **Nodwyd gennym y byddai rhai ardaloedd mewn meddygfeydd yn elwa o gael mwy o sylw wrth lanhau, megis tynnu llwch o lefelau uchel a glanhau'r tu mewn i gypyrddau.** | Adolygu trefniadau glanhau a nodi sut y gellir eu gwella. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)(b) | Wedi'i adolygu gyda Nyrsys a glanhawyr i sicrhau bod y tu mewn i gypyrddau a phob ardal lefel uchel yn cael eu glanhau'n ddyddiol. Byddwn yn parhau i fonitro wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth | Rheolwr y Practis | Rhoddwyd ar waith 20/9/23 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwelwyd fod dyfais llaw golau caledu ym Meddygfa 3 mewn cyflwr gwael, a allai wneud glanhau a rheoli heintiau yn anoddach.** | Newid y ddyfais llaw golau caledu ym Meddygfa 3. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)(b) | Ei gwaredu a'i chyfnewid am un newydd ar yr un diwrnod. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd 20/9/23 |
| **Roedd y weithdrefn gwyno a oedd yn cael ei harddangos yn cyfeirio at Gynghorau Iechyd Cymuned. Cafodd y rhain eu disodli fis Ebrill 202 gan y corff 'Llais'.** | Diweddaru'r weithdrefn gwyno i newid cyfeiriadau at Gynghorau Iechyd Cymuned gyda 'Llais'. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(1) | Wedi'i newid i gopi cyfredol wedi'i argraffu a'i lamineiddio erbyn diwedd y dydd | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau 19/9/23 |
| **Roedd y rhaglen o archwiliadau clinigol yn cynnwys rhoi'r gorau i smygu fel rhan o archwiliad cadw cofnodion.** | Cynnal archwiliadau rhoi'r gorau i smygu fel eitem ar ei phen ei hun. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(1) | Caiff archwiliadau Rhoi'r Gorau i Smygu eu cynnwys yn ein harchwiliadau cardiau cofnodion sy'n cael eu cwblhau bob chwe mis, neu'n gynt os oes angen. Caiff yr holl ganfyddiadau ac adborth eu trafod/dogfennu ac | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau<br><br>15/11/23 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mae Rheolwr y Practis yn eu rhoi i bob clinigydd. Cadarnhewch os yw'n ofyniad gorfodol cael archwiliad ar ei ben ei hun ar gyfer rhoi'r gorau i smygu a'n cyfeirio at y canllawiau. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): CINDY EDWARDS**

**Teitl swydd: RHEOLWR Y PRACTIS**

**Dyddiad: 15/11/2023**